

23/24

atebgroup.co.uk

Hunanwerthusiad Ariannol



Creu atebion
gwell o ran byw

Cynnwys

Diben y gwerthusiad	4
Trosolwg y Bwrdd	6
SR6 – Gwerth am Arian	8
SR7 – Cynllunio a rheolaeth ariannol.....	16
SR8 – Asedau a rhwymedigaethau	39
Datganiadau Ariannol Cyfunol y Grŵp	47
Crynhoi	51

A photograph of a woman with dark hair in a ponytail, wearing a black sleeveless top and grey jeans, sitting on a brown couch and hugging a child in a pink shirt. The scene is set against a light grey wall. A large purple semi-circle is in the top right corner. A blue diagonal overlay covers the bottom left, containing white text.

EIN HYMRWYMIAD I CHI...

Ein nod bob amser fydd cyflawni'r...

canlyniadau gwasanaeth iawn, a hynny'n effeithlon
gan roi profiad gwych i gwsmeriaid... ar gyfer pobl a
chymunedau'r gorllewin.

Diben y gwerthusiad ariannol hwn

Diweddarodd Llywodraeth Cymru ei Fframwaith Rheoleiddiol ym mis Ionawr 2022. Mae'r Fframwaith yn seiliedig ar gyd-reoleiddio ac mae'n canolbwyntio ar naw safon perfformiad. Yn ystod 2022, cynhaliodd Llywodraeth Cymru Adolygiad Rheoleiddiol Pontio o'r graddau yr oeddem yn cydymffurfio a'r naw safon, ac roedd y canlyniad fel a ganlyn:

- **Llywodraethu** (gan gynnwys gwasanaethau i denantiaid): Cydymffurfio - Gwyrdd
Hyfywedd ariannol: Cydymffurfio - Gwyrdd

Mae'r dyfarniad llawn ar gael ar ein gwefan www.atebgroup.co.uk

Dyma'r naw safon reoleiddio:

- **SR1** - Mae gan y sefydliad drefniadau arwain a llywodraethu strategol effeithiol sy'n ei alluogi i gyflawni ei ddiben a bodloni ei amcanion.
- **SR2** - Mae trefniadau cadarn ar waith i reoli risg a rhoi sicrwydd.
- **SR3** - Darperir gwasanaethau o ansawdd uchel i denantiaid.
- **SR4** - Caiff tenantiaid eu grymuso a'u cefnogi i lywio a dylanwadu ar wasanaethau.
- **SR5** - Mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn fforddiadwy i denantiaid presennol a darpar denantiaid.
- **SR6** - Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau.
- **SR7** - Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol.
- **SR8** - Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda.
- **SR9** - Mae'r sefydliad yn darparu llety o ansawdd uchel.

Mae'r adolygiad hwn yn gwerthuso ansawdd hyfywedd ariannol ein sefydliad trwy roi trosolwg o'n trefniadau o ran cyllid ac o newidiadau a wnaed drwy gydol y flwyddyn, yn ogystal â dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni yng nghyswllt y safonau rheoleiddio Cymreig canlynol:

- **SR6** - Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau.
- **SR7** - Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol.
- **SR8** - Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda.

Mae'r gwerthusiad ariannol yn rhan o'r gyfres ganlynol o ddogfennau hunanwerthuso, y mae pob un ohonynt yn ymdrin â rhai o'r safonau, ac sydd gyda'i gilydd yn egluro sut yr ydym yn bodloni'r safonau rheoleiddio:

- **Llywodraethu** - SR1, SR2
- **Perfformiad** - SR3, SR4, SR5 a SR9
- **Ariannol** - SR6, SR7 a SR8
- **Cynllun Gwella**



Bydd y dogfennau uchod yn gwerthuso trefniadau llywodraethu ein sefydliad trwy ddangos...

- sut y mae'r Bwrdd yn gwybod bod y sefydliad yn cydymffurfio â phob un o'r safonau rheoleiddio, a fydd yn cynnwys cyfeiriadau at ddata allweddol am berfformiad a ffynonellau sy'n rhoi sicrwydd
- sut yr ydym yn cydymffurfio â'r Cod Llywodraethu y mae'r sefydliad wedi'i fabwysiadu
- sut yr ydym wedi defnyddio'r brif dystiolaeth y dibynnwyd arni wrth gynnal y gwerthusiad
- sut y mae'r broses werthuso wedi bod yn drwyadl
- sut y mae anghenion a safbwyntiau tenantiaid wedi'u deall a'u hystyried yn rhan o'r hunanwerthusiad
- sut yr ydym wedi nodi ein risgiau strategol allweddol a'r mesurau rheoli cysylltiedig, neu wedi cyfeirio at ddogfennau eraill lle caiff y risgiau allweddol eu disgrifio
- bod ein cynllun gwella parhaus yn nodi unrhyw fylchau neu feysydd i'w gwella ac yn dangos sut yr eir i'r afael â'r rhain (mae hwn yn disodli'r Cynllun Sicrwydd Rheoleiddiol).



Trosolwg ariannol o 23/24

Amgylchedd economaidd cyfnewidiol

Roedd mini-gyllidebau, chwyddiant, cyfyngiadau'n ymwneud â chadwynau cyflenwi, a sgiliau'n prinhau yn y gronfa gyflogaeth i gyd yn heriau a ddaeth ar ein traws yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Mae norm newydd yn dod i'r amlwg, lle mae'n annhebygol am beth amser eto y bydd costau gweithredu uwch yn ystod yr ychydig flynyddoedd diwethaf yn cael eu gwrthbwysu gan incwm uwch cyfatebol. Rhaid mynd i'r afael yn genedlaethol â'r angen brys am sgiliau cynnal a chadw a datblygu yn y gronfa gyflogaeth. Mae pob un ohonom yn gwybod bod angen i ni adeiladu mwy o dai ond mae cost eu hadeiladu wedi cynyddu'n sylweddol.

Yn y cyd-destun hwn, esgorodd y flwyddyn ar ganlyniadau cadarnhaol ar gyfer pob un o dri chwmni'r Grŵp. Rhagorodd Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru ar ein disgwyliadau ariannol gwreiddiol gan lwyddo ar yr un pryd i gyrraedd ei dargedau gweithredu. Elw bach fydd gan Mill Bay Homes i'w gyflwyno ar ffurf rhodd cymorth ar gyfer y flwyddyn, ond y prif reswm am hynny oedd yr adeg y cafodd tai eu gwerthu yn hytrach na bod cyfleoedd i werthu wedi'u colli neu bod prisiau gwerthu'n waeth oherwydd y farchnad dai anodd. Cofnododd ateb waged net a oedd yn well na'r disgwyl ar gyfer y flwyddyn. Rydym yn dal i ystyried bod Mill Bay Homes yn gyfle 'ychwanegol', h.y. bydd ateb bob amser yn cael ei redeg mewn modd sy'n ei alluogi i sefyll ar ei draed ei hun.

Hoffem ddiolch i'n benthycwyr am eu cymorth a'u hagwedd ymarferol yn ystod amryw ddigwyddiadau y llynedd. Drwy drafodaethau adeiladol â'r benthycwyr sy'n bartneriaid i ni, bu modd i ni ailystyried rhai o'n metrigau ariannol er mwyn sicrhau mwy o gyfleoedd i fuddsoddi yn ein cartrefi yn ystod y blynyddoedd nesaf. At hynny, roeddem yn ddiolchgar iawn am gymorth ein benthycwyr ar ddiwedd y flwyddyn, ac am eu parodrwydd i ddeall materion newydd yn ymwneud ag archwilio a gododd o newidiadau cenedlaethol i ddeddfwriaeth ym maes tai. Hoffwn ddiolch hefyd i'n tîm a'n partneriaid a fu'n ymwneud â hybu'r canlyniadau uchod.

Mae llawer o fuddsoddi'n digwydd mewn rhai agweddau hollbwysig ar fusnes ateb. Gyda chymorth Llywodraeth Cymru, dechreuwyd buddsoddi dros £6 miliwn mewn gwaith i wella diogelwch yn gyntaf, dros £1 filiwn (ar ffurf rhaglen dreigl) ar waith i leihau carbon, a swm sylweddol o arian mewn eiddo hŷn. Gwnaethom addasu ein sefyllfa fenthycu tuag at

ddiwedd y flwyddyn, a fydd yn golygu y bydd ein galwad ddisgwyliedig nesaf am gyllid yn digwydd yn ystod Chwarter 2 blwyddyn ariannol 25/26, sy'n gynt na'r disgwyl. Mae gennym dros 1000 o gartrefi i'w defnyddio fel gwarant, gyda phrosiect i baratoi'r cartrefi hynny ymhell cyn bod arnom eu hangen.

Roedd lled ein helw o weithredu yn llai na'r symiau uwch a welwyd yn ystod y flwyddyn flaenorol, sy'n adlewyrchu ein costau gweithredu a'r wasgfa ar unrhyw gynnydd mewn incwm a oedd yn deillio o renti. Gwnaethom gyflwyno meddalwedd newydd ar gyfer cyllidebu a chynllunio busnes yn ystod y flwyddyn, er mwyn ein cynorthwyo'n well i wneud penderfyniadau ariannol. Bydd y system yn dechrau cynhyrchu data mwy cadarn yn ystod y flwyddyn nesaf, a fydd yn galluogi'r busnes i sicrhau bod cymaint o adnoddau ag sy'n bosibl ar gael iddo ar unrhyw adeg.

Mae wedi bod yn flwyddyn ariannol brysur i bawb dan sylw, ond rydym yn dal yn fodlon bod Grŵp ateb mewn sefyllfa ffafriol i barhau â'i waith er budd pobl a chymunedau'r gorllewin yn ystod y blynyddoedd nesaf. Rydym yn ymwybodol o'r buddsoddiad a fydd yn ofynnol oherwydd dyheadau'n ymwneud â 'sero net', ond pan fyddwn wedi deall ein hanghenion buddsoddi yn llawn a phan fydd Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi ei phecyn o gymorth ariannol byddwn yn gallu datblygu llwybr ariannol priodol.

Diolch unwaith eto i'n benthycwyr, Llywodraeth Cymru, ein timau a'r ymgynghorwyr sy'n bartneriaid i ni am eu cymorth ariannol, eu craffter, eu gwybodaeth a'u brwdfrydedd i gyflawni!

David Birch

Cadeirydd ateb
Group Limited

■ RS6

Mae gan y sefydliad ddull strategol o ymdrin â gwerth am arian sy'n llywio ei holl gynlluniau a gweithgareddau

Mae Grŵp ateb wedi datblygu Gweledigaeth ateb, sy'n arwain ein dull o fod gystal ag y gallwn fod. Mae'r Weledigaeth yn nodi ein dull strategol o sicrhau cymaint ag sy'n bosibl o werth am arian, fel a ganlyn:

Rheoli canlyniadau i gwsmeriaid

Dylai cwsmeriaid ddisgwyl i ateb...

“Gyflawni bob amser y canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn.”

Rheoli canlyniadau i gwsmeriaid yw'r broses o alinio popeth a wnawn er mwyn sicrhau canlyniadau llwyddiannus i gwsmeriaid, ynghyd â'r profiad sy'n gysylltiedig â phob canlyniad, e.e.:

- Yn brydlon
- Yn gost-effeithiol
- Yn gadarnhaol
- Mewn modd sy'n cyflawni ein cyfrifoldeb cymdeithasol

Y cysyniad hwn fydd yn llywio sut yr ydym yn buddsoddi; yn sicrhau bod ein gwasanaethau'n esblygu; yn datblygu ein prosesau; ac yn diffinio ein strwythurau; h.y. y cwsmer sydd wrth wraidd popeth a wnawn.



So, what should our services feel like to our customers?

- **Canlyniad** - Dylai cwsmeriaid gael canlyniadau gwasanaeth sy'n bodloni eu disgwyliadau, adeg y cyswllt cyntaf pryd bynnag y bo'n bosibl. Os nad yw hynny'n bosibl, dylai fod gennym resymau clir sy'n egluro pam ac sy'n egluro beth y gallwn ei wneud i gynorthwyo ymhellach neu beth y gallwn ei gynig yn lle hynny, a dylem ddysgu a gwella bob amser.
- **Effeithiolrwydd** - Dylai cwsmeriaid gael canlyniadau cyn gynted ag sy'n bosibl ac i safon uchel, heb fod angen iddynt gysylltu â ni droeon. Os nad yw hynny'n bosibl, dylem fod yn glir ynghylch yr amserlen sy'n bosibl, pam nad yw'r safon yn cyrraedd yr hyn a ddisgwylir a pham y mae angen i ni gyfeirio'r mater at rywun arall. Dylem ddysgu a gwella bob amser.
- **Profiad** - Dylai cwsmeriaid gael profiad cadarnhaol bob amser wrth ymwneud â'n gwasanaethau. Os nad yw hynny'n digwydd, dylem ddeall pam, a dylem ddysgu a gwella

Dull Grŵp ateb o ymdrin â gwerth am arian

Dylem geisio cyflawni 100% o'r canlyniad iawn bob amser, mor effeithiol ag y gallwn 100%, ond os na fyddwn yn gwneud hynny byddwn bob amser yn sicrhau ein bod yn gwella ac yn dysgu.

**Gwerth am arian yn ateb =
Cyflawni'r canlyniadau iawn
+ Mor effeithiol ag y gallwn**

Beth yw'r 'canlyniadau iawn'?

- Rhaid i ganlyniadau gwasanaeth adlewyrchu anghenion cwsmeriaid
- Rhaid monitro anghenion cwsmeriaid yn barhaus er mwyn sicrhau bod gwasanaethau'n cyd-fynd â nhw'n barhaus
- Rhaid cymryd camau gweithredol i annog ymgysylltu/adborth gan gwsmeriaid er mwyn helpu i wella dealltwriaeth o ganlyniadau
- Rhaid datblygu mesurau a thargedau er mwyn rhannu gwybodaeth am ganlyniadau i gwsmeriaid ac am gyflawniadau

Beth yw 'yn effeithiol'?

- Rhaid i ganlyniadau gwasanaeth adlewyrchu anghenion cwsmeriaid
- Yn y ffurf iawn – yn ddigidol, mewn sesiynau 1 i 1, ac ati
- Yn y ffordd orau o ran cost ac ansawdd
- Gan achosi cyn lleied ag sy'n bosibl o risg
- Gan lunio prosesau clir a chryno
- Gan ddatblygu mesurau a thargedau er mwyn rhannu gwybodaeth am effeithiolrwydd

Fframwaith gweithredol

I sicrhau'r uchod, rydym yn defnyddio ein fframwaith gweithredol 'Cyflawni' i lywio a rheoli'r hyn a wnawn. Mae 'Cyflawni' wedi'i ddatblygu gan ddefnyddio egwyddorion syniadaeth ddarvoudus a syniadaeth ynghylch systemau, lle mae canlyniadau i gwsmeriaid yn llywio'r gwaith o ddylunio'r modd y caiff gwasanaethau eu darparu. Yna, mae mapio a rheoli prosesau'n sicrhau bod y canlyniadau gofynnol yn cael eu cyflawni mor effeithiol ag sy'n bosibl gan fonitro risgiau a nodi gwelliannau.

Mae ein fframwaith 'Cyflawni' yn berthnasol i'r Grŵp cyfan, p'un a yw'r maes gwasanaeth yn un sy'n ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid ynteu'n wasanaeth cymorth. Mae gennym 37 o feysydd gwasanaeth i gyd, ac mae 19 o'r rheini yn ymdrin yn uniongyrchol â chwsmeriaid. Mae 'Cyflawni' yn nod hirdymor y bydd angen gwneud ymdrech ar y cyd i'w sefydlu'n llawn yn y Grŵp.

Dull strategol o ymdrin â gwerth am arian

Caiff ein dull o reoli canlyniadau i gwsmeriaid a'n meini prawf ar gyfer gwerth am arian eu gweithredu yng nghyswllt ein 38 o feysydd gwasanaeth drwy'r fframwaith sefydliadol canlynol sydd ar waith ar draws y Grŵp:

Cyfarwyddiaethau	Tîmau Rheoli
CYF/01 - Corfforaethol	TRh/01 - Gwasanaethau Corfforaethol
	TRh/02 - Pobl a Chyfathrebu
CYF/02 - Cwsmeriaid	TRh/03 - Gwasanaethau i Gwsmeriaid
	TRh/04 - Gwasanaethau Eiddo
	TRh/05 - Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru
CYF/03 - Datblygu	TRh/06 - Datblygu
	TRh/07 - Mill Bay Homes
CYF/04 - Cyllid	TRh/08 - Cyllid
	TRh/09 - Systemau Digidol

Mae gan bob maes tim rheoli ganllaw i sefyllfa yn y dyfodol, sy'n disgrifio'r cyfeiriad y bwriedir mynd iddo er mwyn gwella ein canlyniadau i gwsmeriaid a'n heffeithiolrwydd dros gyfnod, sy'n seiliedig ar amcanion strategol y Grŵp ar gyfer y cyfnod sydd ohoni.

Yna, mae'r canllawiau hynny i sefyllfa yn y dyfodol yn llywio Cynlluniau Gwella blynyddol ein Cyfarwyddiaethau, y mae'r Byrddau yn eu monitro i sicrhau ein bod yn cyflawni'r gwelliannau sy'n ofynnol er mwyn cyflawni ein canlyniadau i gwsmeriaid yn well, mor effeithiol ag y gallwn.

Asesiad o werth am arian

Mae ein hasesiad o werth am arian yn deillio o'r modd yr ydym wedi mesur rhai dangosyddion, ac yna wedi'u cymharu â'n cymheiriaid. Mae'r tablau a'r siartiau isod yn dangos bod ein costau yn is yng nghyswllt llawer o fesuriadau. Rydym yn ystyried ein gwerth am arian cyffredinol yng nghyd-destun ein polisi pennu rhenti, ac i'r perwyl hwnnw rydym yn gweld bod ein rhenti'n is o lawer yn barhaus na'r hyn a gaiff ei ystyried yn fforddiadwy.

ateb Group Limited

Fel landlord cymdeithasol cofrestredig a gaiff ei reoleiddio gan Lywodraeth Cymru, rydym yn rhannu data am berfformiad a chostau, a gaiff ei gymharu wedyn â darparwyr tebyg yng Nghymru. Mae hynny'n rhoi i ni ddealltwriaeth eang o'n perfformiad o ran gwerth am arian. Cafodd arolwg STAR Llywodraeth Cymru, a gynhelir bob dwy flynedd, ei gynnal yn 2024 ac mae'n defnyddio adborth cwsmeriaid i 12 cwestiwn. Roedd perfformiad ateb fel a ganlyn, o gymharu â 46 o landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac awdurdodau lleol ar draws Cymru:

Cwestiynau Arolwg STAR 2024 46 o ymatebwyr a oedd yn landlordiaid cymdeithasol cofrestredig ac yn awdurdodau lleol		SAFLE (Cyfanswm 'bodlon iawn' ac 'eithaf bodlon')
1	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y gwasanaeth a ddarperir gan eich landlord cymdeithasol?	16 ^{eg}
2	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar ansawdd cyffredinol eich cartref?	7 ^{fed}
3	Yn gyffredinol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y ffordd y mae eich landlord cymdeithasol yn delio â gwaith atgyweirio a chynnal a chadw?	21 ^{ain}
4	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar eich cymdogaeth fel lle i fyw?	19 ^{eg}
5	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod eich rhent yn cynnig gwerth am arian?	21 ^{ain}
6	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod y ffioedd a godir am wasanaethau yn cynnig gwerth am arian?	25 ^{ain}
7	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod eich landlord cymdeithasol yn gwrando ar eich safbwyntiau ac yn gweithredu arnynt?	24 ^{ain}
8	Gan feddwl am eich cartref yn benodol, pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi bod eich landlord cymdeithasol yn darparu cartref sy'n ddiogel?	22 ^{ain}
9	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y ffordd y mae eich landlord cymdeithasol yn delio ag ymddygiad gwrthgymdeithasol?	2 ^{il}
10	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi ar y cyfleoedd sy'n cael eu rhoi ichi gymryd rhan ym mhrosesau gwneud penderfyniadau eich landlord cymdeithasol?	17 ^{eg}
11	Pa mor fodlon neu anfodlon ydych chi fod eich landlord cymdeithasol yn rhoi cyfle ichi ddweud eich dweud am y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu rheoli?	25 ^{ain}
12	I ba raddau yr ydych chi'n cytuno â'r datganiad canlynol - "Rwy'n ymddiried yn fy landlord cymdeithasol"?	28 ^{ain}

Gwyrdd = 25% uchaf | Melyn = 50% canol | Coch = 25% isaf

Bob blwyddyn, mae pob un o gymdeithasau tai Cymru yn cyfrannu i'r cyfrifon cynhwysfawr cenedlaethol ynghylch cymdeithasau tai a lunnir gan Cartrefi Cymunedol Cymru. Mae'r dangosyddion diweddaraf fel a ganlyn:

Dangosyddion gwerth am arian – cyfartaleddau blyneddol y sector	Cyfartaledd y sector yn 2022	Cyfartaledd ateb yn 2022	Amrywiant
Trosiant fesul uned tai cymdeithasol	£5,831	£5,923	£91
Cyfanswm costau gweithredu fesul uned tai cymdeithasol	£3,680	£3,018	-£662
Costau rheoli fesul uned tai cymdeithasol	£1,283	£912	-£371
Costau ymatebol fesul uned tai cymdeithasol	£1,251	£1,149	-£102
Atgyweiriadau mawr a chhydrannau fesul uned tai cymdeithasol (Cyfalaf)	£773	£397	-£376
Atgyweiriadau mawr a chhydrannau fesul uned tai cymdeithasol (Cyfalaf a Refeniw)	£1,192	£970	-£222
Costau dyledion drwg fesul uned tai cymdeithasol	£24	£2	-£22
Cost gyfartalog bwysedig cyfalaf	3.9%	3.9%	0.0%
Mewnlif (all-lif) arian rhydd fesul uned tai cymdeithasol	£540	£1,689	£1,150
Ôl-ddyledion crynswth / trosiant tai cymdeithasol	4.4%	4.2%	-0.2%
Colled rhent unedau gwag fesul uned tai cymdeithasol	£80	£33	-£47

Mae ateb wedi datblygu'r cartrefi newydd canlynol yn ystod y 3 blynedd diwethaf:

	23/24	22/23	21/22
Cartrefi newydd (ac eithrio rhai adran 106 a rhai a ariannwyd gan Mill Bay Homes)	65	55	63
Grant Tai Cymdeithasol y gellir ei briodoli i gartrefi newydd £m	1.25	5.1	7.1
Cartrefi newydd (gan gynnwys rhai adran 106 a rhai a ariannwyd gan Mill Bay Homes)	72	59	66

Caiff yr holl ddatblygiadau newydd eu hasesu ar sail canllawiau Llywodraeth Cymru ynghylch costau cyfartalog a'n meini prawf ni ein hunain ar gyfer asesu hyfywedd, sy'n modelu gwerth am arian amcanestynedig dros gyfnod o 40/50 mlynedd.

Mill Bay Homes

Mae Mill Bay Homes yn cael benthg arian gan ateb i gyflawni ei weithgareddau datblygu. Gan fod Mill Bay Homes yn talu cyfradd llog masnachol am y cyfleuster hwn, nid yw'r trefniant yn cael effaith ariannol andwyol ar ateb nac ar Mill Bay Homes. Caiff pob tâl rhwng cwmnïau'r Grŵp ei briodoli'n unol â'r amser a dreuliwyd, ac ar sail cyfradd a gaiff ei dilysu drwy ein harchwilwyr allanol.

Gwerthodd Mill Bay Homes 12 o gartrefi y llynedd a chyflwynodd £58,000 i ateb ar ffurf rhodd cymorth, sef rhodd cymorth gwerth £5,000 ar gyfartaledd am bob cartref a werthwyd. Gan fod y cartrefi'n cael eu gwerthu'n gystadleuol ar y farchnad agored, bernir mai gwerth yr eiddo a werthir sy'n pennu'r gwerth am arian.

Mae Mill Bay Homes yn arfarnu'n gyson werth yr eiddo a werthir ganddo ar y farchnad, er mwyn sicrhau bod prynwyr yn dal yn fodlon â'r hyn y maent wedi'i brynu. At hynny, mae Mill Bay Homes yn ceisio sicrhau bod ei wasanaeth cyn ac ar ôl gwerthu eiddo'n bodloni disgwyliadau'r prynwr.



West Wales Care & Repair
Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru

Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru

Mae Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru yn cael cyllid gan ystod o sefydliadau sy'n cynnwys awdurdodau lleol Ceredigion a Sir Benfro, yr awdurdod iechyd a Llywodraeth Cymru. Yn gyffredinol, mae trefniant monitro'n gysylltiedig â phob un o'r cronfeydd/grantiau hynny er mwyn sicrhau bod y gweithgareddau gofynnol yn cael eu cyflawni'n ôl y disgwyl ar draws y flwyddyn. Mae hynny'n ei gwneud yn ofynnol i Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru adrodd yn rheolaidd ynghylch perfformiad o ran cwsmeriaid a pherfformiad ariannol i'w gyllidwyr, ac yn genedlaethol i Gofal a Thrwsio Cymru, sef corff trosfwaol darparwyr Gofal a Thrwsio yng Nghymru.

Mae model busnes Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru yn un sydd fel rheol yn golygu bod y busnes yn cynhyrchu gwarged cymedrol, ac mae'r broses o gynllunio busnes yn allweddol i sicrhau bod costau'n gymesur ag incwm.

Os yw Gofal a Thrwsio Gorrlewin Cymru yn cyflawni gwaith preifat i gwsmeriaid, caiff y gwaith hwnnw ei gyflawni ar ôl darparu dyfynbris, a'r cwsmer sy'n penderfynu a yw'r gwaith yn cynnig gwerth da am arian iddo. Mae lefelau bodlonrwydd â'n gwaith preifat yn uchel iawn.

Gwerth am arian - crynodeb

Ar sail ein hasesiad o weithgareddau ein Grŵp o ran ein meini prawf ar gyfer gwerth am arian, credwn fod y Grŵp yn cynnig gwerth am arian. Fodd bynnag, rydym yn cynllunio gwelliannau er mwyn sefydlu ein fframwaith 'Cyflawni' ymhellach, a chynyddu ein heffeithiolrwydd o ran gwerth am arian felly hefyd.





■ SR6 – Blwyddyn Ariannol 23/24

GWIRIO'R GWERTHUSIAD

“Mae gan y sefydliad
ddull strategol o ymdrin
â gwerth am arian sy'n
llywio ei holl gynlluniau a
gweithgareddau”

Rydym wedi llunio'r gwerthusiad canlynol:

Mae ein Bwrdd wedi adolygu ein dadansoddiad a'n tystiolaeth ac mae o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r safon hon ar gyfer perfformiad.

Gwirio'r Gwerthusiad

1. A yw'r Bwrdd yn gwybod ei fod yn cyrraedd y safon hon?

Mae'r Bwrdd:

Wedi dod i'r casgliad bod ein Gweledigaeth, #4 Cyflawni, yn diffinio mai gwerth am arian yw ceisio cyflawni'r 'canlyniadau iawn, mor effeithiol ag y gallwn' bob amser, lle mae canlyniadau iawn yn golygu darparu i'n cwsmeriaid yr hyn y maent yn ei ddisgwyl, a lle mae effeithiolrwydd yn golygu ymdrin yn y ffordd orau posibl â'n gweledigaeth, amserlenni, costau, ansawdd a risg wrth fodloni'r disgwyliadau hynny. Diben ein systemau yw cyflawni'r canlyniadau iawn i gwsmeriaid, mor effeithiol ag y gallwn, drwy fabwysiadu dull o reoli canlyniadau i gwsmeriaid. Rydym yn gwneud gwelliannau mewn meysydd, megis ein gwasanaeth caffael, er mwyn sicrhau ein bod yn ystyried yn effeithiol werth economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol llawn ein partneriaethau yn unol â'n diffiniad o werth am arian.

2. Beth oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r safon hon?

Mae'r Bwrdd:

Wedi ystyried y dystiolaeth allweddol ganlynol ar gyfer y safon hon:

- Gweledigaeth ateb
- #4 Cyflawni
- Adroddiadau ynghylch Perfformiad
- Adroddiadau ariannol
- Yr arolwg STAR
- Adborth ynghylch bodlonrwydd cwsmeriaid
- Cyfrifon cynhwysfawr Llywodraeth Cymru
- Y polisi caffael
- Strategaeth
- Y Cynllun Busnes
- Profion straen a senarios a gynhaliwyd ar Gynlluniau Busnes
- Adroddiadau rheoli trysorlys

3. A oes gwaith yn digwydd i gynllunio gwelliannau?

Mae'r Bwrdd:

Wedi cynnwys y camau gwella canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 24/25 yn ein Cynllun Gwella:

- IP/17 - Parhau i gynorthwyo cyflenwyr a chontractwyr lleol, llai o faint i ymuno â'n cadwyn gyflenwi. (Corfforaethol): **Cariwyd drosodd i flwyddyn ariannol 24/25.** Mae cynnydd wedi'i wneud eisoes wrth i ddigwyddiadau cwrdd a'r cyflenwr gael eu cynnal ac wrth i gymorth gael ei gynnig i gwblhau tendrau. Bydd camau gwella'n parhau yn 23/24 a 24/25.
- IP/43 - Gwella ein dealltwriaeth o werth am arian ar draws y Grŵp a'r graddau yr ydym yn adrodd yn ei gylch, ac amlygu arbedion o ran costau/gwerth. (Corfforaethol): **Cariwyd drosodd i flwyddyn ariannol 24/25.**

Mae'r cynllunio a'r rheolaeth ariannol yn gadarn ac yn effeithiol

Mae'r Grŵp yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau ariannol a gweithgareddau cynllunio rheolaidd ar draws y flwyddyn, y bwriedir iddynt sicrhau bod gan y Grŵp ddigon o gryfder ac adnoddau ariannol i gyflawni ei nodau strategol.

Fframwaith cyfansoddiadol

Mae fframwaith cyfansoddiadol y Grŵp yn ategu swyddogaethau cynllunio a rheolaeth ariannol y Grŵp. Mae'r canlynol yn arbennig o bwysig:

- Rheoliadau ariannol
- Y cynllun dirprwyo awdurdod
- Y datganiad polisi rheoli trysorlys
- Y cynllun adfer ariannol

Mae'r dogfennau hyn yn disgrifio'r systemau ariannol allweddol y mae'n rhaid iddynt fod ar waith er mwyn sicrhau bod fframwaith ariannol y Grŵp yn gadarn ac yn effeithiol. Mae'r Bwrdd yn adolygu ac yn cymeradwyo'r dogfennau hyn yn flynyddol ac mae ein harchwilwyr allanol yn gwneud hynny hefyd, os oes raid.

Cyllidebu

Bob blwyddyn, mae'r Grŵp yn datblygu cynigion cyllidebol sy'n seiliedig ar anghenion y Grŵp ar gyfer y flwyddyn ariannol sydd i ddod. Mae'r Byrddau yn herio'r cynigion hynny'n briodol, ac yn cymeradwyo cyllidebau y mae'r Grŵp yn rheoli adnoddau ariannol oddi mewn iddynt yn ystod y flwyddyn honno.

Cynllun Busnes

Mae'r Grŵp yn llunio Cynllun Busnes 5 mlynedd yn unol â'n gofynion rheoleiddiol. Caiff y Cynllun ei ailystyried bob blwyddyn a chaiff newidiadau eu modelu ar sail Cynllun Busnes sylfaenol. Y cynllun sylfaenol yw'r cynllun a lunnir i ategu strategaeth newydd (bydd blwyddyn ariannol 24/25 yn flwyddyn cynllun sylfaenol).

Blwyddyn 1 y cynllun yw'r gyllideb bob amser, gyda'r blynyddoedd dilynol yn cael eu datblygu o amcanion strategaeth; ffactorau economaidd tebygol yn ystod blynyddoedd yn y dyfodol; a thwf a gwelliant mewn gwasanaethau. Caiff y Cynllun Busnes ei gymeradwyo gan y Bwrdd bob amser a chaiff ei rannu â'n rheoleiddiwr a'n benthycwyr.

Gan fod y Cynllun Busnes yn cyflwyno golwg ar y dyfodol, daw'r rhagdybiaethau a ddefnyddir gennym, e.e. Mynegai Prisiau Defnyddwyr, newidiadau mewn cyfraddau llog ac ati, o ffynonellau annibynnol a chânt eu hadolygu gan y Bwrdd cyn eu bod yn cael eu defnyddio. Un o nodweddion allweddol y broses o Gymeradwyo'r Cynllun Busnes yw cynnal profion 'beth os'. Rydym yn cynnal profion straen a senarios i weld pa mor gadarn fyddai'r Cynllun pe bai pethau'n newid yn ystod y cyfnod o 5 mlynedd.

Cynllun ariannol

Unwaith eto, er mwyn bodloni ein gofynion rheoleiddiol, rydym yn llunio cynllun ariannol 30 mlynedd o gwmpas mis Medi bob blwyddyn. Mae'r cynllun hwnnw'n ymestyn rhagdybiaethau'r Cynllun Busnes am hyd at 30 mlynedd i'r dyfodol er mwyn profi bod modd i ni fodloni ein rhwymedigaethau hirdymor sy'n gysylltiedig â'n cartrefi a'n hymrwymiaadau presennol.

Rydym yn cynnwys gweithgarwch datblygu hyd at flwyddyn 5 yn y cynllun hwn, ac yna'n dangos ein capasiti i ddatblygu o flwyddyn 6 ymlaen. Dyma'r ffordd orau o adlewyrchu realiti'r cylch datblygu, ac mae'n dangos yn glir ein gallu i fodloni ein hymrwymiaadau presennol.

Cynllun rheoli trysorlys

Gan ein bod yn cael benthyg symiau sylweddol o arian, rydym yn adolygu ein benthyciadau a'n buddsoddiadau yn rheolaidd i wneud yn siŵr ein bod yn sicrhau'r canlyniadau gorau i'r Grŵp o safbwynt gwerth a risg. Bob blwyddyn, mae ein cynghorwyr annibynnol ynghylch trysorlys yn cyfarfod â'n Bwrdd i asesu ein portffolio trysorlys ac unrhyw gamau gweithredu y gallem fod am eu hystyried.

Cyfrifon rheoli

Bob mis, rydym yn llunio set o gyfrifon i ddangos i ni sut yr ydym yn perfformio ar sail ein cyllideb flynyddol a gymeradwywyd. Caiff y cyfrifon hynny eu defnyddio gan ddeiliaid cyllideb a rheolwyr i addasu neu wneud penderfyniadau am wariant ac am dargedau ariannol yr ydym am eu cyrraedd ar draws y flwyddyn. Bob chwarter, rydym.

Cyfrifon statudol

Ar ddiwedd ein blwyddyn ariannol (ym mis Mawrth), mae'r Bwrdd yn cyflogi archwilydd allanol i ddilysu ein sefyllfa ariannol ar yr adeg honno. Mae'r archwilydd allanol yn ystyried ystod o ddata ac yn cynnal llawer o wiriadau ariannol fel bod modd iddo ddweud a yw'r cyfrifon yn rhoi darlun teg neu beidio o sefyllfa ariannol Grŵp ateb.

Rheolaeth ariannol

Drwy gydol y flwyddyn, rydym yn cynnal ystod o wiriadau ariannol ac yn llunio ystod o adroddiadau, er enghraifft rydym yn cysoni mantolenni ac yn gwirio ein bod yn bodloni cyfamodau ein benthycwyr ar gyfer benthyciadau (cymarebau sy'n dangos ein cryfder ariannol). Mae'r gwiriadau hynny'n elfen bwysig o sicrhau nad ydym yn colli rhywbeth a allai effeithio ar ein cynlluniau ariannol.

ASESIAD ARIANNOL

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae pob un o dri chwmni ein Grŵp wedi dangos bod eu sefyllfa ariannol yn gryf. (Mae EBS yn dal yn gwmni anweithredol.)



Creu atebion
gwell o ran byw

ateb Group Limited

**Datganiadau ariannol
blwyddyn ariannol 23/24
(Nodwch mai ar gyfer y Grŵp y
mae'r datganiadau)**

Y penawdau:

- Mae trosiant wedi gostwng 5.7% i £25.4m, o gymharu â 22/23, yn bennaf gan fod Mill Bay Homes wedi gwerthu llai o gartrefi, a hynny oherwydd y modd y cafodd ein cynlluniau datblygu eu rhannu'n gamau ac amseru'r gwerthu.
- Cynyddodd incwm sy'n deillio o renti (gan gynnwys taliadau gwasanaeth) 10.6% i £21.5m.
- Mae nifer y cartrefi wedi cynyddu 2.4% i 3,203.
- Mae'r gwarged gweithredu, sef £5.2m, wedi lleihau 0.5% neu £25,000, o gymharu â 22/23.
- Mae % y gwarged gweithredu wedi cynyddu o 19.4% i 20.4%.
- Mae'r gwarged net (ar ôl addasiadau ar gyfer pensiynau), sef £2.8m, 27.0% yn uwch o gymharu â blwyddyn ariannol 22/23, ac mae'n cynnwys colled actiwaraid o £(0.4)m ar gynlluniau pensiwn (gwelwyd colled o £0.2m yn 22/23). actuarial loss on pension schemes (22/23 saw a £0.2m loss).



MBH limited

**Datganiadau ariannol
blwyddyn ariannol 23/24**

Y penawdau:

- Mae trosiant wedi gostwng 55.4% i £2.9m, o gymharu â 22/23, gan fod llai o gartrefi wedi'u gwerthu, a hynny oherwydd y modd y cafodd ein cynlluniau datblygu eu rhannu'n gamau ac amseru'r gwerthu.
- Mae nifer y cartrefi a werthwyd wedi gostwng i 12 (blwyddyn ariannol 22/23: 23).
- Gostyngodd yr elw gros 68.9% i £317,000.
- Mae % yr elw gros wedi gostwng o 29.6% i 20.7% eleni oherwydd bod proffidioldeb cynlluniau yn llai, yn dilyn perfformiad rhagorol yn ystod y blynnyddoedd blaenorol. performance in prior years.



West Wales **Care & Repair**
Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru

West Wales Care & Repair Limited

Datganiadau ariannol blwyddyn ariannol 23/24

Y penawdau:

- Mae trosiant wedi cynyddu 1.1% i £1,046,000, o gymharu â blwyddyn ariannol 22/23.
- Gostyngodd y gwarged gweithredu £8,000 i £23,000, oherwydd cynnydd mewn costau deunyddiau, treuliau prosiectau a chyflogau.
- Cynyddodd y gwarged net (cyn addasiadau ar gyfer pensiynau) £6,000 i £44,000, gyda'r llog a gafwyd yn rhoi hwb i'r canlyniad cyffredinol.
- Gwelwyd colled actiwaraid o £34,000 o ran y cynllun pensiwn buddion diffiniedig, o gymharu â cholled o £13,000 yn ystod blwyddyn ariannol 22/23.

Datganiad o Incwm Cynhwysfawr

Crynodeb	Grŵp* £m	ateb £m	Mill Bay Homes £m	Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru £m
Trosiant	25.4	21.5	2.9	1.0
Costau gweithredu a chostau gwerthu	(20.2)	(16.7)	(2.6)	(0.7)
Gwarged gweithredu	5.2	4.9	0.3	0.3
Llog net a chostau/incwm arall	(2.0)	(1.7)	(0.3)	(0.3)
Enillion/(Colled) actiwaraid ar gynlluniau pensiwn	(0.4)	(0.4)	-	-
Gwarged ar gyfer y flwyddyn	2.8	2.8	0.1	-
% lled yr elw o weithredu	20.5%	22.6%	11.0%	30.3%

* Dangosir canlyniadau'r Grŵp ar ôl addasiadau cyfuno

Datganiad o Sefyllfa Ariannol	Grŵp* £m	ateb £m	Mill Bay Homes £m	Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru £m
Asedau sefydlog diriaethol/ Buddsoddiadau	266.1	266.1	-	-
Asedau cyfredol net	13.1	7.1	6.1	0.7
Cyfanswm yr asedau	303.0	302.2	6.5	0.9
Symiau i'w talu > 1 flwyddyn	234.6	235.1	6.1	0.0
Cronfeydd wrth gefn	50.3	49.6	-	0.6


* Dangosir canlyniadau'r Grŵp ar ôl addasiadau cyfuno

ateb Loan Covenants	Isafswm/ Uchafswm	22/23	21/22	20/21
Sicrwydd llog (EBITDA MRI/Llog)**	110%	236%	162%	197%
Sicrwydd llog (EBITDA/Llog)**	150%	382%	198%	230%
Geriad – Hanesyddol	55%	30%	32%	38%


** Yn dangos cyfrifiad mwyaf beichus y cyfamod




Cartrefi newydd a ddatblygwyd (ac eithrio rhai adran 106 a rhai a ariannwyd gan Mill Bay Homes)




Gwarged net




Trosiant




Lled yr elw o weithredu



Ôl-ddyledion tenantiaid presennol fel % o'r rhent sy'n ddyledus mewn blwyddyn



Incwm a gollwyd o ran rhent oherwydd bod eiddo'n wag




Asesiad rheoli trysorlys y Grŵp


O ran y sefyllfa ar ddiwedd y flwyddyn, mae 92% o'n dyled ar gyfradd llog sefydlog. Mae ateb yn elwa o Gyfleuster Credyd Cylchdrool byrdymor sy'n gysylltiedig â SONIA (a ddarperir gan Barclays) ac roedd £3 miliwn o hwn wedi ei ddefnyddio ar ddiwedd y flwyddyn a'i ad-dalu ym mis Ebrill. 3.75% yw cyfradd llog gyfartalog wedi'i phwysoli ein portffolio o fenthyciadau fel yr oedd y sefyllfa ar 31 Mawrth 2024.

Mae Cynllun Busnes ateb yn awgrymu bod digon o gapasiti yn y cytundebau presennol ar gyfer y flwyddyn nesaf, cyn bod angen benthyca rhagor. Fodd bynnag, pe bai amodau'n newid, rydym mewn sefyllfa dda i sicrhau cyllid ychwanegol oherwydd ein perfformiad cyffredinol a'n lefelau o stoc ddilyffethair (gweler adran SR8 isod). Rydym hefyd yn bwriadu datblygu mwy o dai ar draws cyfnod o 5 mlynedd ein Cynllun Busnes, a fyddai'n darparu rhagor o sicrwydd ar gyfer cyllid ychwanegol, pe bai arnom ei angen.


Sut y cawn ein hariannu



Risg o ran cyfraddau llog



Y symud a ragwelir mewn dyled yn ystod y 5 mlynedd nesaf - £m




Y rhagolygon o ran cynllunio a rheolaeth ariannol

Ar ôl diweddaru ein Cynllun Busnes 5 mlynedd a'n cynlluniau ariannol 30 mlynedd, mae ein sefyllfa ariannol yn parhau'n gadarnhaol. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod yr amgylchedd economaidd a'r amgylchedd gwleidyddol presennol, yn ogystal â helynt economaidd 2022 a'r angen i wneud iawn am y tarfu a ddigwyddodd oherwydd


Covid, wedi effeithio ar ein rhagolygon o'u cymharu â'r blynyddoedd blaenorol.

Mae'r siartiau canlynol yn dangos rhai prif fetrigau o'n Cynllun Busnes a'n cynlluniau ariannol: Mae'r siartiau isod yn deillio o Gynlluniau Busnes (CB) 2023 a 2024 a'r Rhagolygon 30 Mlynedd.


Trosiant 5 mlynedd




Cartrefi newydd yn ystod blwyddyn




Cartrefi newydd – ffigur cronol




Gwarged gweithredu




Gwarged net




EBITDA MRI




Geriad (Cost hanesyddol)




Rhagolygon 30 mlynedd – Cronfeydd wrth gefn



Sicrwydd Ilog (EBITDA MRI / Llog net)



Geriad (Cost Hanesyddol)



Sicrwydd Archwilwyr Allanol

ob blwyddyn rydym yn cynnal asesiad annibynnol o'n sefyllfa ariannol. Mae Bevan & Buckland, ein harchwilwyr allanol, wedi ysgrifennu at ein Bwrdd fel a ganlyn:



ADRODDIAD YR ARCHWILYDD ANNIBYNNOL I AELODAU ATEB GROUP LIMITED SYDD WEDI'I GOFRESTRU DAN DDEDDF CYDMEITHASAU CYDWEITHREDOL A CHYMDEITHASAU BUDD CYMUNEDOL 2014

Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol ateb Group Limited (“y Gymdeithas”) ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024, sy'n cynnwys y datganiad o incwm cynhwysfawr, y datganiad o newidiadau mewn cronfeydd wrth gefn, y datganiad o sefyllfa ariannol, y datganiad o lifau arian a'i nodiadau cysylltiedig. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd wrth eu paratoi yw'r gyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig), gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102, “Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon”.

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun gwir a theg o gyflwr busnes y Gymdeithas fel yr oedd ar 31 Mawrth 2024, ac o'i hincwm a'i gwariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig;
- wedi cael eu paratoi'n gywir yn unol â Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014, Deddf Tai ac Adfywio 2008 a Phenderfyniad Cyffredinol (Cymru) 2015 ynghylch Gofynion Cyfrifyddu ar gyfer Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig.

Sail y farn

Gwnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach yn y rhan o'n hadroddiad sy'n nodi cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol. Rydym yn annibynnol ar y Gymdeithas yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y DU, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hynny. Credwn fod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Casgliadau'n ymwneud â busnes gweithredol

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) yn mynnu ein bod yn adrodd wrthyhych yn eu cylch os:

- nad yw defnydd y Bwrdd o'r sail busnes gweithredol i gyfrifyddu, wrth baratoi'r datganiadau ariannol, yn briodol; neu
- nad yw'r Bwrdd wedi datgelu yn y datganiadau ariannol unrhyw ansicrwydd o bwys a nodwyd, a allai fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r Gymdeithas i barhau i fabwysiadu'r sail busnes gweithredol i gyfrifyddu am gyfnod o ddeuddeg mis o leiaf o'r dyddiad pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Gwybodaeth arall

Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys y wybodaeth a geir yn yr adroddiad blynyddol, heblaw'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilwyr ar y rheini. Y Bwrdd sy'n gyfrifol am y wybodaeth arall.

Nid yw ein barn am y datganiadau ariannol yn ymdrin â'r wybodaeth arall, a heblaw i'r graddau a nodir yn benodol fel arall yn ein hadroddiad nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad yn ei chylch o ran sicrwydd.

Mewn perthynas a'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol, ein cyfrifoldeb ni yw darllen y wybodaeth arall ac, wrth wneud hynny, ystyried a yw'r wybodaeth arall yn anghyson mewn modd o bwys â'r datganiadau ariannol neu â'n gwybodaeth ni a gafwyd yn ystod yr archwiliad, neu a yw'n ymddangos fel arall ei bod wedi'i

chamfynegi mewn modd sydd o bwys. Os byddwn yn nodi anghysonderau o'r fath, sydd o bwys, neu'n nodi achosion lle mae'n ymddangos bod gwybodaeth wedi'i chamfynegi mewn modd sydd o bwys, mae'n ofynnol i ni benderfynu a oes gwybodaeth wedi'i chamfynegi mewn modd o bwys yn y datganiadau ariannol neu a yw'r wybodaeth arall wedi'i chamfynegi mewn modd sydd o bwys. Os, ar sail y gwaith a wnaethom, byddwn yn dod i'r casgliad bod y wybodaeth arall dan sylw wedi'i chamfynegi mewn modd sydd o bwys, mae'n ofynnol i ni adrodd ynghylch y ffaith honno. Nid oes gennym ddim i'w adrodd o ran hynny.

Materion y mae'n ofynnol i ni adrodd yn eu cylch drwy eithriad

Nid oes gennym ddim i'w adrodd ynghylch y materion canlynol y mae Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014 yn mynnu ein bod yn adrodd wrthyhych yn eu cylch os, yn ein barn ni:

- nad oes system foddhaol o reolaeth ar drafodion wedi'i chynnal; neu
- nad yw'r Gymdeithas wedi cadw cofnodion cyfrifyddu cywir; neu
- nad yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â llyfrau cyfrifon y Gymdeithas; neu
- nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r holl esboniadau y mae arnom eu hangen ar gyfer ein harchwiliad.

Cyfrifoldebau'r Bwrdd

Fel yr esbonnir yn llawnach yn y Datganiad o Gyfrifoldebau'r Bwrdd (sydd ar dudalen 5), y Bwrdd sy'n gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun gwir a theg, a'r Bwrdd sy'n gyfrifol am y rheolaeth fewnol y mae'n penderfynu sy'n angenrheidiol er mwyn ei gwneud yn bosibl paratoi datganiadau ariannol sy'n rhydd o unrhyw achos o bwys o gamfynegi gwybodaeth, boed oherwydd twyll neu wall.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, Mae'r Bwrdd yn gyfrifol am asesu gallu'r Gymdeithas i barhau'n fusnes gweithredol, ac am ddatgelu fel y bo'n berthnasol faterion sy'n ymwneud â busnes gweithredol ac sy'n ymwneud â defnyddio'r sail busnes gweithredol i gyfrifyddu, oni bai bod y Bwrdd naill ai'n bwriadu datod y grŵp neu ddod â gweithrediadau i ben, neu nad oes ganddo unrhyw ddewis realistig arall heblaw gwneud hynny.

Cyfrifoldebau'r Archwilydd am archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o unrhyw achos o bwys o gamfynegi gwybodaeth, boed oherwydd twyll neu wall, a rhoi adroddiad archwilydd sy'n cynnwys ein barn.

Mae sicrwydd rhesymol yn lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n warant y bydd archwiliad a gynhelir yn unol â Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) bob amser yn canfod achos o bwys o gamfynegi gwybodaeth pan fydd achos o'r fath yn bodoli.

Gall achosion o gamfynegi gwybodaeth ddeillio o dwyll neu wall ac ystyrir eu bod yn achosion o bwys os gellid disgwyl yn rhesymol iddynt, yn unigol neu gyda'i gilydd, ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr, a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Y graddau yr ystyriwyd y gallai'r archwiliad ganfod afreolaiddra, gan gynnwys twyll

Rydym yn nodi ac yn asesu'r risgiau y gallai'r datganiadau ariannol gael eu camfynegi mewn modd sydd o bwys, boed oherwydd twyll neu wall, ac yna rydym yn llunio ac yn gweithredu gweithdrefnau archwilio sy'n ymateb i'r risgiau hynny, sy'n cynnwys mynnu tystiolaeth archwilio sy'n ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Buom yn trafod ein hannibyniaeth o ran archwilio, a'r angen i ni gydymffurfio â Safon Foesegol Ddiwygiedig 2019, ag aelodau'r tîm ymgysylltu wrth gynllunio'r archwiliad a gwnaethom fonitro ein hannibyniaeth yn barhaus drwy gydol y broses.

Nodi ac asesu risgiau posibl yn ymwneud ag afreolaidd-dra

Wrth nodi ac asesu risgiau bod gwybodaeth yn cael ei chamfynegi mewn modd sydd o bwys yng nghyswllt afreolaidd-dra, gan gynnwys twyll ac achosion o fethu â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau, roedd ein gweithdrefnau'n cynnwys y canlynol:

- holi'r tîm rheoli, a oedd yn cynnwys cael dogfennau atodol a'u hadolygu, am bolisiâu a gweithdrefnau'r sefydliad ynghylch:
 - camau i nodi a gwerthuso deddfau a rheoliadau, a chydymffurfio â nhw, ac a oeddent yn gwybod am unrhyw achosion o fethu â chydymffurfio;
 - canfod risgiau o dwyll ac ymateb iddynt, ac a ydynt yn gwybod am unrhyw achosion gwirioneddol, achosion a amheuir neu achosion a honnir o dwyll;
 - systemau rheoli mewnol sydd wedi'u sefydlu i liniaru risgiau sy'n ymwneud â thwyll neu achosion o fethu â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau;
- trafod ymhlith aelodau'r tîm ymgysylltu sut a ble y gallai twyll ddigwydd yn y datganiadau ariannol, ac unrhyw ddangosyddion posibl o dwyll. Yn rhan o'r drafodaeth honno, gwnaethom nodi y gallai twyll ddigwydd yn y meysydd canlynol:
 - Prynu sy'n ymwneud â'r rhaglenni datblygu a chynnal a chadw, gan gynnwys unrhyw achosion o werthu rhywbeth i unigolion cysylltiedig am bris sy'n is na'i werth ar y farchnad;
 - Cydnabod gwariant yn ymwneud â datblygu a chynnal a chadw yn y cyfnod cywir;
 - Y rhesymeg sy'n ymwneud ag unrhyw lifau o bwys o ran cronfeydd yn ystod y cyfnod;
 - Y posibilrwydd y gallai twyll yn ymwneud â rhenti ddigwydd o ganlyniad i gydgyllwynio rhwng y timau asedau a thai.
- meithrin dealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r sefydliad yn gweithredu ynddynt, gan ganolbwyntio ar y deddfau a'r rheoliadau a effeithiodd yn uniongyrchol ar y datganiadau ariannol neu a effeithiodd yn sylfaenol ar weithrediadau'r sefydliad.

Ymateb yr archwiliad i'r risgiau a nodwyd

Yn ogystal â'r uchod, roedd ein gweithdrefnau i ymateb i'r risgiau a nodwyd yn cynnwys y canlynol:

- adolygu datgeliadau'n ymwneud â'r datganiadau ariannol a rhoi prawf ar y dogfennau atodol er mwyn asesu'r graddau y cydymffurfiwyd â'r deddfau a'r rheoliadau perthnasol;
- holi'r tim rheoli am hawliadau gwirioneddol a phosibl ac am achosion gwirioneddol a phosibl o ymglyfreitha; gweithredu gweithdrefnau dadansoddi er mwyn adnabod unrhyw gydb berthnasau anarferol neu annisgwyl a allai awgrymu risg o gamfynegi gwybodaeth mewn modd sydd o bwys, oherwydd twyll;
- darllen cofnodion cyfarfodydd y sawl sy'n gyfrifol am lywodraethu, ac adolygu gohebiaeth a Chyllid a Thollau Ei Fawrhydi; a
- wrth fynd i'r afael â'r risg o dwyll oherwydd bod rheolwyr yn diystyru systemau rheoli, rhoi prawf ar briodoldeb cofnodion dyddlyfrau ac addasiadau eraill;
- asesu a yw'r farn a luniwyd wrth greu amcangyfrifon cyfrifyddu'n awgrymu tuedd bosibl; a
- gwerthuso rhesymeg fusnes unrhyw drafodion sylweddol sy'n anarferol neu nad ydynt yn perthyn i drefn normal busnes.

At hynny, gwnaethom rannu gwybodaeth â phob un o aelodau'r tîm ymgysylltu am y deddfau a'r rheoliadau perthnasol a nodwyd ac am y risgiau posibl o dwyll, a gwnaethom barhau'n effro drwy gydol yr archwiliad i unrhyw arwyddion o dwyll neu o fethu â chydymffurfio â deddfau a rheoliadau.

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau am archwilio'r datganiadau ariannol i'w gael ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol: www.frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n Hadroddiad Archwilwyr.

Defnydd o'n hadroddiad

I aelodau'r Gymdeithas fel corff yn unig y gwneir yr adroddiad hwn, yn unol â Rhan 7 Deddf Cymdeithasau Cydweithredol a Chymdeithasau Budd Cymunedol 2014. Ymglymerwyd â'n gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan i aelodau'r Gymdeithas y materion y mae gofyn i ni eu datgan iddynt mewn adroddiad archwilydd, ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau eithaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn cymryd cyfrifoldeb i neb ond y Gymdeithas ac aelodau'r Gymdeithas fel corff am ein gwaith archwilio, am yr adroddiad hwn neu am y farn yr ydym wedi'i llunio.

Bevan Buckland LLP


**Cyfrifwyr Siartredig ac
Archwilwyr Statudol**

Llawr Gwaelod
Cardigan House
Castle Court
Parc Menter Abertawe
Abertawe
SA7 9LA

Dyddiad: 26/07/24

Asesiad Ariannol – Crynodeb

Credwn fod y wybodaeth
uchod yn dangos bod
rheolaeth ariannol gadarn ac
effeithiol wedi bod ar waith
ar draws y Grŵp.



■ SR7 – Blwyddyn Ariannol 23/24

GWIRIO’R GWERTHUSIAD

“Mae’r cynllunio a’r rheolaeth
ariannol yn gadarn ac yn
effeithiol”

Rydym wedi llunio'r gwerthusiad canlynol:

Mae ein Bwrdd wedi adolygu ein dadansoddiad a'n tystiolaeth ac mae o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r safon hon ar gyfer perfformiad.

Gwirio'r Gwerthusiad

1. A yw'r Bwrdd yn gwybod ei fod yn cyrraedd y safon hon?

Mae'r Bwrdd:

Wedi dod i'r casgliad bod ein systemau tymor byr, canolig a hir ar gyfer cynllunio ariannol a chymorth ariannol yn ein galluogi i drefnu, rheoli a monitro ein hadnoddau ariannol er mwyn hybu'r gwaith o gyflawni Cynllun Busnes ein Grŵp ac amcanion strategol y Grŵp.

Mae ein systemau yn sicrhau ein bod yn gwneud y defnydd gorau o'n hadnoddau, yn cyflawni ein hymrwymiadau i'n cwsmeriaid, ein timau a'n partneriaid ac yn cynnal sefydlogrwydd ariannol hirdymor cryf.

2. Beth oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r safon hon?

Mae'r Bwrdd:

Wedi ystyried y dystiolaeth allweddol ganlynol ar gyfer y safon hon:

- Y gyllideb
- Y Cynllun Busnes 5 mlynedd
- Y cynllun ariannol 30 mlynedd
- Barn archwilwyr mewnol ac allanol
- Cyfrifon rheoli
- Cyfrifon statudol
- Datganiad polisi ac adroddiadau rheoli trysorlys
- Rheoliadau ariannol
- Y cynllun dirprwyo awdurdod
- Adroddiadau ynghylch perfformiad
- Datganiadau i Lywodraeth Cymru a benthycwyr

3. A oes Gwaith yn digwydd i gynllunio gwelliannau?

Mae'r Bwrdd:

Wedi sicrhau bod ein Cynllun Gwella yn cynnwys y camau gwella canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 23/24:

- IP/27 – Uwchraddio ein systemau cyllid, gan gynnwys system Caffael i Dalu newydd, a monitro gwaith cynllunio busnes/cyllidebu ac adrodd yn ei gylch. (Cyllid): **Carried Forward**.
- IP/28 – Adolygu prosesau ac adnoddau ein Tim Digidol. (Cyllid): **Cariwyd drosodd**.
- IP/47 – Defnyddio cyfamodau/trothwyau benthycwyr a chyfamodau/trothwyau rheoleiddiol i bennu lefelau delfrydol o berfformiad cyfamodau, sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng capasiti i fuddsoddi yn y busnes (gan gynnwys mewn datgarboneiddio) a'r angen i ymateb i ddigwyddiadau gweithredu neu ddigwyddiadau economaidd annisgwyl, a monitro perfformiad ar sail y lefelau a gytunwyd. (Cyllid): **Newydd**.

■ SR8

Caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli'n dda

Asedau a reolir

Mae gennym yr asedau canlynol a reolir, ar ddiwedd blwyddyn ariannol 23/24:

Asedau a reolir	Mawrth 2024
Preswyl rhydd-ddaliadol	3,133
Preswyl lesddaliadol	30
Rhanberchnogaeth	14
Eiddo a reolir yn unig	10
Rhentu i Berchnogi	5
Cyfanswm asedau preswyl	3,192
Deiliadaethau eiddo Cymorth Prynu	75
Eiddo masnachol	3
Cyfanswm	3,270




Proffil oedran

Bandiau oedran	Sawl eiddo	%
Cyn 1900:	114	3.57%
1900-1929:	15	0.47%
1930-1949:	10	0.31%
1950-1966:	144	4.51%
1967-1975:	52	1.63%
1976-1982:	84	2.63%
1983-1990:	153	4.79%
1991-1995:	543	17.01%
1996-2002:	562	17.61%
2003-2006:	130	4.07%
2007-2011:	332	10.40%
O 2012 ymlaen:	1080	33.83%

Proffil sgorau SAP

Sgorau effeithlonrwydd ynni

Roedd statws ein cartrefi o ran sgorau effeithlonrwydd ynni fel a ganlyn ddiwedd mis Mawrth 2024 (heb gynnwys cartrefi Rhanberchnogaeth a chartrefi Rhentu i Berchnogi):




Bandiau SAP

A:	310	9.59%
B:	1054	32.61%
C:	1559	48.24%
D:	280	8.66%
E:	23	0.71%
F:	6	0.19%
G:	0	0.00%


Defnyddio asedau fel gwarant

Ym mis Mawrth 2024, roedd gennym 1,010 o gartrefi preswyl rhydd-ddaliadol neu lesddaliadol nad oeddent wedi'u harwystlo i fenthyciwr. Erbyn diwedd y cynllun 5 mlynedd, gan gynnwys y cartrefi sydd yn y rhaglen ddatblygu ond cyn y benthycia “newydd”, bydd gan ateb oddeutu 1,580 o gartrefi ar gael i'w harwystlo. Mae hynny'n cyfateb i dros £95m o werth mewn eiddo, sydd ymhell y tu hwnt i'r gofyniad benthycia “newydd” sydd yn y cynllun.

Cartrefi a ddefnyddir fel gwarant ac nas defnyddir fel gwarant, Mawrth 2024



Cartrefi a ddefnyddir fel gwarant, fesul benthyciwr, Mawrth 2024



Rheoli rhwymedigaethau

Rydym yn rheoli ac yn monitro ein rhwymedigaethau drwy gynnal Cofrestr Benthyciadau a Dyddiadur Rheoli Trysorlys, a gaiff eu diweddarau a'u hadolygu yn rheolaidd. Drwy gyfrifon rheoli a rhagolygon, rydym yn monitro ein perfformiad o'i gymharu â'n cyfamodau allweddol, ac yn rheoli lefelau arian hylifol er mwyn gallu talu llog ac ad-daliadau cyfalaf. Rydym hefyd yn rheoli ein cyfalaf gweithredol er mwyn sicrhau ein bod yn cyflawni ein rhwymedigaethau masnachu wrth iddynt ddod yn ddyledus. Bob blwyddyn, rydym yn cael Adroddiad Gwirio Iechyd Trysorlys gan ein cynghorwyr trysorlys (Savills).

Cofrestr asedau a rhwymedigaethau

Yn rhan o fodloni ein gofynion rheoleiddiol, rydym yn cynnal cofrestr asedau a rhwymedigaethau er mwyn dangos sefyllfa asedau a rhwymedigaethau'r Grŵp bob chwarter drwy gydol y flwyddyn. Mae'r gofrestr yn helpu'r Grŵp i sicrhau ei fod yn deall ei rwymedigaethau hirdymor. Mae'r gofrestr yn cynnwys yr elfennau canlynol:

	Enghreifftiau o gynnwys pob un o gategorïau'r gofrestr
Asedau o ran tir ac eiddo	Eiddo preswyl i'w osod ar rent, banc tir
Rhwymedigaethau o ran buddsoddi mewn eiddo	Contractau datblygu, contractau cynnal a chadw eiddo
Rhwymedigaethau corfforaethol	Rhwymedigaethau o ran pensïynau, polisïau yswiriant
Asedau a rhwymedigaethau ariannol	Benthyciadau allanol, gwaith sydd ar y gweill, symiau i'w derbyn a'u talu drwy fasnach

Rydym yn asesu pob elfen o'r gofrestr asedau a rhwymedigaethau a lefel sicrwydd yn rheolaidd. Y lefelau yw "Sylweddol", "Digonol", "Cyfyngedig" neu "Angen Gwella".

Caiff y gofrestr ei hadolygu gan y Pwyllgor Sicrwydd, sy'n craffu ar newidiadau a wnaed i'r gofrestr neu ar bethau nad ydynt wedi'u cynnwys ynddi, ac sy'n ein herio o ran hynny. Mae'r gallu i weld asedau a rhwymedigaethau yn galluogi'r Grŵp i ddangos ei fod yn fusnes gweithredol, ac yn ei alluogi i sicrhau'r elw mwyaf posibl o'i asedau ac i'w rheoli yn y ffordd orau posibl o ran risg.

Asesu'r modd y caiff asedau a rhwymedigaethau eu rheoli

Mae gennym ddealltwriaeth dda o'n hasedau a'n rhwymedigaethau yn y Grŵp, a gaiff ei datblygu ar sail y gweithgareddau canlynol:

Asedau

- Rhaglen arolygu cyflwr y stoc drwy gydol y flwyddyn
- Adroddiadau ynghylch hyd oes (o'r gronfa ddata ynghylch eiddo), gan gynnwys sgorau Tystysgrifau Perfformiad Ynni a sgorau SAP
- Asesiadau a gwaith ardystio'n ymwneud â Safon Ansawdd Tai Cymru
- Proses brisio at ddiben gwarantu – wrth baratoi i fenthycu
- Gwaith arolygu/ archwiliadau o safleoedd
- Y rhaglen adeiladu cartrefi newydd

- Y gofrestr asedau
- Archwiliad blynyddol o falansiau
- Gwaith cysoni mantolenni

Rhwymedigaethau

- Y gofrestr caffael a chontractau
- Rheoli gwariant o ran cyflenwyr/ contractwyr
- AGwirio balansiau benthycwyr a thystysgrifau cydymffurfio bob blwyddyn
- Gwaith cysoni mantolenni



Rydym wedi diweddarau ac adolygu'r gofrestr asedau a rhwymedigaethau bob chwarter gyda'n Pwyllgor Sicrwydd, gan dynnu sylw at y prif newidiadau yn ystod pob cyfnod.

Mae ein gallu i godi cyllid o stoc ddilyffethair yn cyfateb i oddeutu £60m sy'n golygu ein bod mewn sefyllfa gryf i ariannu datblygiadau pellach.

Mae ein rhwymedigaethau'n gyson â'n math o Grŵp, ac nid ydym yn amlygu unrhyw rwymedigaethau eithriadol ar hyn o bryd. Mae gan Mill Bay Homes a

Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru, fel is-gwmnïau y mae ateb Group Limited yn berchen yn llwyr arnynt, gytundebau fframwaith sicrwydd is-gwmnïau â'u rhiant er mwyn sicrhau bod y berthynas o ran rhwymedigaethau rhwng ateb a'i is-gwmnïau yn glir i bawb ac yn cyd-fynd â Chylchlythyr 05/08 Llywodraeth Cymru – Strwythurau Grŵp. Mae gan Mill Bay Homes gyfleuster benthyca a gytunwyd gydag ateb, ac mae gan ateb yn ei dro daliad arnawf llawn dros Mill Bay Homes. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn ei ariannu ei hun.

Asedau a rhwymedigaethau – crynodeb

Credwn fod yr uchod yn dangos ein bod yn rheoli ein hasedau a'n rhwymedigaethau yn unol â'r safon.



■ SR8 – Blwyddyn Ariannol 23/24

GWIRIO'R GWERTHUSIAD

“Caiff asedau a
rhwymedigaethau eu
rheoli'n dda”

Rydym wedi llunio'r gwerthusiad canlynol:

Mae ein Bwrdd wedi adolygu ein dadansoddiad a'n tystiolaeth ac mae o'r farn ein bod yn cydymffurfio â'r safon hon ar gyfer perfformiad.

Gwirio'r gwerthusiad

1. A yw'r Bwrdd yn gwybod ei fod yn cyrraedd y safon hon?

Mae'r Bwrdd:

- Wedi dod i'r casgliad ein bod, yn unol â'n diben, yn gwneud y defnydd gorau posibl o asedau ein Grŵp a'n bod yn defnyddio'r data a gesglir gennym i lywio penderfyniadau a gwaith cynllunio strategol. Mae ein cofrestr asedau a rhwymedigaethau yn bwynt cyfeirio ac yn adnodd busnes i'r Grŵp ac mae ar ffurf sy'n golygu y byddai modd ei darparu ar fyr rybudd i'r Rheoleiddiwr neu i achubwr mewn argyfwng.

2. Beth oedd y brif dystiolaeth a ddefnyddiwyd i werthuso'r safon hon?

Mae'r Bwrdd:

Wedi ystyried y dystiolaeth allweddol ganlynol ar gyfer y safon hon:

- Y gofrestr asedau a rhwymedigaethau
- Papurau'r Pwyllgor Sicrwydd
- Papurau'r Bwrdd
- Y cynllun rheoli asedau strategol
- Gwaith archwilio mewnol
- Hyd oes
- Adroddiadau ynghylch cyflwr y stoc
- Adroddiadau ynghylch caffael/gwariant
- Y cynllun ariannol 30 mlynedd
- Rhaglenni gwaith arfaethedig a chylchol
- Y broses warantu

3. A oes gwaith yn digwydd i gynllunio gwelliannau?

Mae'r Bwrdd:

Wedi sicrhau bod ein Cynllun Gwella yn cynnwys y camau gwella canlynol ar gyfer blwyddyn ariannol 22/23:

- IP/38 – Cynyddu ein gallu o ran cyllidebu, cynllunio busnes, ymdrin â chofrestr asedau a rhwymedigaethau ac adrodd ynghylch materion ariannol, er mwyn rhoi gwybodaeth fwy manwl a sydyn i'r busnes. (Cyllid): **Cariwyd drosodd i flwyddyn ariannol 23/24.**



Crynodeb o Ddatganiadau Ariannol Cyfunol y Grŵp – Blwyddyn Ariannol 23/24

DATGANIAD CYFUNOL O INCWM CYNHWYSFAWR

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

£'000s	Blwyddyn Ariannol 22/23	Blwyddyn Ariannol 23/24
Trosiant	26,961	25,416
Costau gwerthu	(4,568)	(2,299)
Gwarged gros	22,393	23,117
Namyn: costau gweithredu	(17,239)	(17,944)
Enillion/(Colled) o waredu eiddo, peiriannau a chyfarpar	68	24
Gwarged gweithredu	5,222	5,173
Incwm cyllido/buddsoddi	455	1,121
Costau cyllido	(3,545)	(3,242)
Llog wedi'i gyfalafu	61	116
Grant Cyllid Tai	252	(114)
Taliadau cyllido / Costau rhoi	(254)	(217)
Addasiad gwerth tir a roddwyd	303	435
Incwm arall	-	27
Costau llog net cronfeydd pensiwn	(37)	(59)
Gwarged ar gyfer y flwyddyn cyn treth	2,457	3,240
Treth	-	-
Incwm cynhwysfawr arall	2,457	3,240
Enillion/(Colled) actiwaraidd yng nghyswllt cynlluniau pensiwn	(261)	(458)
Cyfanswm incwm cynhwysfawr ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth	2,196	2,782

GWEITHREDIADAU SY’N PARHAU

Ni chafodd unrhyw rai o weithgareddau'r Gymdeithas eu caffael na’u dirwyn i ben yn ystod y ddwy flwyddyn ariannol.

DATGANIAD CYFUNOL O NEWIDIADAU MEWN CRONFEYDD WRTH GEFN

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

£'000s	Cronfa refeniw wrth gefn	Cronfa ddynodedig wrth gefn	Cronfa gyfyngedig wrth gefn	Cyfanswm y cronfeydd wrth gefn
Balans ar 1 Ebrill 2023	47,028	233	234	47,495
Gwarged o'r datganiad o incwm cynhwysfawr	2,782			2,782
Trosglwyddo arian y cronfeydd wrth gefn	112	(107)	5	-
Balans ar 31 Mawrth 2024	49,922	126	229	50,277



ATGANIAD CYFUNOL O SEFYLLFA ARIANNOL

Ar 31 Mawrth 2024

£'000s	Blwyddyn Ariannol 22/23	Blwyddyn Ariannol 23/24
Eiddo, Peiriannau a Chyfarpar		
Eiddo o ran tai – cost dibrisiant	251,396	265,092
Arall	951	1,034
	252,347	266,126
Buddsoddiadau		
Eiddo o ran buddsoddi	98	98
Benthyciad Cymorth Prynu	2,418	2,344
Symiau sydd i'w derbyn: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	4,915	4,734
	259,778	273,302
Asedau cyfredol		
Rhestrau cynnwys a chyflwr	2,459	5,684
Symiau i'w derbyn drwy fasnach: symiau sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn	2,939	3,349
Arian parod	28,450	20,707
	33,848	29,740
Symiau i'w talu drwy fasnach: symiau sy'n dod yn ddyledus cyn pen blwyddyn	(9,436)	(16,603)
Asedau cyfredol net	24,412	13,137
Cyfanswm asedau namyn rhwymedigaethau cyfredol	284,190	286,439
Symiau i'w talu drwy fasnach: symiau sy'n dod yn ddyledus ar ôl mwy na blwyddyn	(235,289)	(234,621)
Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau		
Pensiwn – rhwymedigaeth o ran ariannu diffyg	(1,406)	(1,542)
Asedau net	47,495	50,276
Ecwiti		
Cyfalaf cyfranddaliadau y galwyd amdano	-	-
Cronfeydd cyfyngedig wrth gefn	234	229
Cronfeydd dynodedig wrth gefn	233	126
Cronfa refeniw wrth gefn	47,028	49,921
	47,495	50,276

DATGANIAD CYFUNOL O LIFAU ARIAN

Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024

£'000s	Blwyddyn Ariannol 22/23		Blwyddyn Ariannol 23/24	
Mewnlif arian net o weithgareddau gweithredu		11,296		3,181
Llif arian o weithgareddau buddsoddi Taliadau i gaffael a datblygu eiddo	(15,122)		(16,672)	
Derbyniadau o werthu eiddo, peiriannau a chyfarpar	69		24	
Grant Tai Cymdeithasol a chyfraniadau a dderbyniwyd	13,975		7,012	
Grantiau cyfalaf eraill	7,529		1,238	
Prynu asedau sefydlog eraill	(264)		(254)	
Incwm cyllido/buddsoddi	455		1,253	
All-lif arian net o weithgareddau buddsoddi		6,642		(7,399)
Llif arian o weithgareddau cyllido Costau cyllido	(3,994)		(3,071)	
Morgeisi a benthyciadau eraill a gafwyd – tai	-		9,485	
Costau cyllido benthyciadau a roddwyd	(167)		(19)	
Benthyciadau a ad-dalwyd – tai	(7,253)		(9,919)	
Mewnlif/(All-lif) arian net o gyllido		(11,414)		(3,524)
Newid net mewn arian parod a symiau sy'n cyfateb i arian parod		6,524		(7,742)
Arian parod, a symiau sy'n cyfateb i arian parod, ar ddechrau'r flwyddyn		21,925		28,449
Arian parod, a symiau sy'n cyfateb i arian parod, ar ddiwedd y flwyddyn		28,449		20,707

Nodiadau'r datganiadau ariannol

Mae datganiadau ariannol cyfunol y Grŵp wedi'u gwirio gan ein harchwilwyr allanol a'r Bwrdd ond bydd angen iddynt gael eu cymeradwyo gan ein cyfranddalwyr yn ein Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol y disgwylir iddo gael ei gynnal ym mis Medi 2024. Yn dilyn y cyfarfod hwnnw, bydd y set lawn o ddatganiadau ariannol ar gyfer y Grŵp, ateb, Mill Bay Homes a Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru ar gael o ofyn amdani.

Crynhoi'r Hunanwerthusiad Ariannol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 23/24

Canolbwyntio ar eiddo ac ar bobl

Rydym wastad wedi canolbwyntio ar sefydlogrwydd ac effeithiolrwydd ariannol, ond daeth ambell beth annisgwyl ar ein traws y llynedd. Mae ein costau gweithredu wedi cynyddu, a hynny weithiau'n gynt na lefelau uchel y Mynegai Prisiau Defnyddwyr cyffredinol, ac mae costau cynnal a chadw a datblygu wedi cynyddu'n ddifrifol iawn. Yn ogystal, ac o gofio bod ein busnesau wedi'u seilio yn bennaf ar gryfder y bobl a gyflogir gennym ynghyd â'u sgiliau a'u profiad, mae costau denu a chadw gweithwyr wedi bod yn heriol drwy gydol y flwyddyn. Rhaid i gostau sy'n cynyddu gael eu hystyried bob amser yng ngoleuni rhenti a gwasanaethau fforddiadwy.

Rydym wedi gwneud defnydd da o'n polisi pennu rhenti fforddiadwy er mwyn cadw ein rhenti ar lefel sydd, yn ein barn ni, yn gystadleuol yn yr ardaloedd yr ydym yn gweithredu ynddynt. Mae'n debygol y bydd sicrhau'r cydbwysedd gofynnol yn her yn ystod y blynyddoedd sydd i ddod, pan fydd cyfraddau llog yn ôl pob tebyg ddwywaith yn fwy na chyfraddau'r Mynegai Prisiau Defnyddwyr. At hynny, nid yw'n debygol y bydd y polisi disgwyledig newydd ynghylch rhenti ar gyfer blwyddyn ariannol 25/26 yn codi lefelau rhenti yng Nghymru yn sylweddol i wrthbwysu gwahaniaethau'r blynyddoedd a fu.

Un o flaenoriaethau ariannol ateb yw sicrhau bod cymaint ag sy'n bosibl o adnoddau'n cael eu buddsoddi mewn eiddo a phobl, ac rydym wedi bod yn canolbwyntio ar wneud hynny (a byddwn yn parhau i wneud hynny). Yn ystod y flwyddyn, rydym wedi gweld ein gallu i ddenu sgiliau a phrofiad newydd gwych i'r Grŵp yn gwella, drwy ddangos y gwerth diamheuol yr ydym yn ei gynnig o ran cyflogaeth. Mae ateb yn darparu cartrefi i gwsmeriaid, a heb fuddsoddi yn ein gwasanaethau

atgyweirio ymatebol ac arfaethedig ni fyddwn yn gallu bodloni eu dyheadau sy'n newid. Y llynedd, cafodd sawl fframwaith newydd ar gyfer gwaith cynnal a chadw arfaethedig eu cytuno, a fydd yn ein gwasanaethu yn dda yn ystod y blynyddoedd nesaf.

At hynny, gwnaethom gytuno ar fframwaith ar gyfer gwella a buddsoddi yn ein prosesau atgyweirio ymatebol er mwyn cynyddu lefelau bodlonrwydd cwsmeriaid â'r gwasanaeth hwn. Bydd y buddsoddiad hwnnw'n hybu incwm hirdymor ac yn diogelu'r warant i'n benthycwyr.

Elw bach oedd gan Mill Bay Homes i'w gyflwyno ar ffurf rhodd cymorth. Y rheswm am hynny oedd bod y Grŵp wedi arafu ei waith ar safleoedd lle ceir cartrefi ar gyfer y farchnad, yn ystod y cyfnod pan oedd yna lawer o ansicrwydd yn y farchnad dai, ac amseru un safle lle'r oedd eiddo'n cael

ei werthu dros ddiwedd y flwyddyn ariannol. Cafodd prisiau gwerthu eu cynnal ond roedd yr elw'n llai oherwydd bod costau adeiladu'n uwch nag yn ystod y blynyddoedd a fu. Mae Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru yn dibynnu ar grantiau a adnewyddir yn flynyddol. Cafodd y cwmni arian ychwanegol yn ystod y flwyddyn i bontio bwlch rhwng y galw am addasiadau a'r cyllid a oedd ar gael yn wreiddiol. Helpodd hynny Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru i sicrhau gwarged a oedd yn well na'r disgwyl ar ddiwedd y flwyddyn. Bydd angen bob amser i Gofal a Thrwsio Gorllewin Cymru gadw cronfeydd wrth gefn ar lefel ofynnol er mwyn darparu ar gyfer costau ychwanegol pe bai methiant yn digwydd, a bydd unrhyw arian sydd uwchlaw'r lefel honno mewn cronfeydd yn cael ei ddefnyddio i gyflawni mwy yn ystod y blynyddoedd nesaf.

Nid yw wedi bod yn hawdd ymdopi â'r amgylchedd economaidd cyfnewidiol hwn, ond rydym yn dal i deimlo'n hyderus ynglŷn â'n sefyllfa a'n rhagolygon ariannol. Ni fydd hynny'n atal ein hawydd i fod yn fwy effeithiol yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod pob agwedd ar ein perfformiad ariannol yn targedu'r pethau hynny sy'n esgor ar yr effaith fwyaf i'n cwsmeriaid. Diolch am holl ymdrechion ein Byrddau, ein timau a'n partneriaid yn ystod y flwyddyn ddiwethaf.

Nick Hampshire
Prif Weithredwr

**Creu atebion
gwell o ran byw**